# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

# A GYFLWYNWYD / TABLED ON 16/01/2007

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
R Signifies the Member has declared an interest

**OPIN-2007- 0001 - Cytundebau Lefel Gwasanaeth rhwng y Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru/Service Level Agreements between the Local Health Boards and Health Commission Wales**

**Codwyd gan / Raised By:**

Owen John Thomas

**Tanysgrifwyr / Subscribers:**

**Cytundebau Lefel Gwasanaeth rhwng y Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru**

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn galw ar unwaith am sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng uwch swyddogion y Bwrdd Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru ar gyfer ymateb i ohebiaeth ysgrifenedig.

Credwn fod diffyg polisi ffurfiol yn y maes hwn yn methu â gwarchod buddiannau rhai o'n cleifion mwyaf agored-i-niwed - y rhai sy'n dioddef o gyflyrau sy'n peryglu eu bywyd megis canser y brostad ac sy'n awyddus i gael ymateb ar frys er mwyn cael gwybod a oes triniaeth Brachytherapi ar gael.

**Service Level Agreements between the Local Health Boards and Health Commission Wales**

This National Assembly calls for the immediate establishment of a Service Level Agreement between senior Local Health Board officials and Health Commission Wales on responding to written correspondence.

We consider that the absence of a formal policy in this area is failing to safeguard the interests of some of our most vulnerable patients – those suffering from life threatening conditions such as prostate cancer and seeking an urgent response on the availability of Brachytherapy treatment.